



Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd
Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

EB44: Datganiad o Gydweithio Rhanbarthol

Hydref 2026

Bwrdeistref Sirol Caerffili

2il Gynllun Datblygu Lleol Newydd Amgen

2020-2035

**EB44: Datganiad o Gydweithio Rhanbarthol
(Datganiadau o Gytundeb Eang rhwng
ACLIau)**

Crynodeb Annhechnegol

Crynodeb Annhechnegol

Mae'r Papur Sylfaen Dystiolaeth hwn yn esbonio sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) wedi gweithio gyda chynghorau cyfagos a sefydliadau rhanbarthol wrth baratoi'r 2il Gynllun Datblygu Lleol Newydd Amgen (2CDLIA) 2020–2035. Ei ddiben yw dangos bod cynlluniau twf Caerffili ar gyfer cartrefi, swyddi, trafnidiaeth a seilwaith wedi'u datblygu mewn cydweithrediad ag awdurdodau cyfagos ac yn gydnaws â strategaethau rhanbarthol ehangach.

Mae deddfwriaeth gynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddangos bod eu cynlluniau datblygu yn cyd-fynd â rhai ardaloedd cyfagos ac yn ystyried materion sy'n croesi ffiniau gweinyddol. Mae'r ddogfen yn darparu tystiolaeth bod Caerffili wedi cydweithio'n helaeth â chynghorau cyfagos a phartneriaid rhanbarthol wrth baratoi'r 2CDLIA.

Mae Caerffili wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos gan gynnwys:

- Blaenau Gwent
- Caerdydd
- Merthyr Tudful
- Casnewydd
- Rhondda Cynon Taf
- Torfaen
- Bro Morgannwg

Mae Datganiadau o Gytundeb Eang wedi'u paratoi gyda chynghorau cyfagos i ddangos, cyn belled ag y bo modd, fod strategaethau twf a pholisïau cynllunio yn gydnaws yn gyffredinol ar draws y rhanbarth.

Mae llawer o'r un materion yn effeithio ar Gaerffili ac awdurdodau cyfagos, gan gynnwys:

- Cyflenwi tai a fforddiadwyedd
- Twf economaidd a chreu swyddi
- Tagfeydd traffig
- Patrymau cymudo
- Gwelliannau i dtrafnidiaeth gyhoeddus
- Cadw a denu trigolion o oedran gweithio
- Newid hinsawdd a risg llifogydd
- Diogelu mannau gwyrdd a'r amgylchedd naturiol

Mae'r ddogfen yn amlygu pwysigrwydd cynyddol cynllunio rhanbarthol, yn enwedig drwy:

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

- Cynllun Datblygu Strategol De-ddwyrain Cymru sy'n dod i'r amlwg
- Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Nod y cynlluniau hyn yw cydlynu tai, cyflogaeth, trafnidiaeth, seilwaith a diogelu'r amgylchedd ar draws De-ddwyrain Cymru yn hytrach nag o fewn ffiniau cynghorau unigol yn unig.

Mae cryn dipyn o'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r 2CDLIA wedi'i pharatoi ar y cyd ag awdurdodau cyfagos. Mae hyn yn cynnwys:

Astudiaethau Poblogaeth a Thwf

Archwiliodd gwaith rhanbarthol dwf poblogaeth yn y dyfodol, mudo a chreu swyddi ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y bydd twf economaidd yn gofyn am ddenu a chadw mwy o drigolion a gweithwyr ar draws y rhanbarth ehangach.

Arfarniadau Aneddiadau

Mae cynghorau'n defnyddio dull cyffredin i asesu pa mor gynaliadwy yw trefi a phentrefi, yn seiliedig ar:

- Mynediad at dtrafnidiaeth
- Gwasanaethau a chyfleusterau lleol
- Cyfleoedd cyflogaeth

Mae hyn yn sicrhau dull cyson ar draws De-ddwyrain Cymru.

Asesiad Risg Llifogydd

Cynhaliwyd asesiad llifogydd rhanbarthol ar y cyd i sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol yn osgoi neu'n mynd i'r afael yn briodol â risgiau llifogydd. Mae hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth gyson ar draws awdurdodau.

Asesiad Tir Cyflogaeth

Mae awdurdodau wedi datblygu dulliau cyffredin o asesu anghenion tir busnes a chyflogaeth. Mae hyn yn cydnabod bod swyddi a buddsoddiad yn aml yn gwasanaethu marchnadoedd rhanbarthol ehangach.

Cynllunio Trafnidiaeth

Defnyddiwyd Model Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru i asesu effaith datblygiadau arfaethedig ar ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn helpu i gydlynu twf â buddsoddiad trafnidiaeth.

Ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, nod y 2CDLIA yw cefnogi:

- Twf poblogaeth o tua 8,850 o bobl
- Twf yn y gweithlu lleol o tua 5,000 o bobl
- Darparu 6,785 o gartrefi Newydd
- Cyflawni tua 1,360 o gartrefi fforddiadwy
- Dyrannu 40.3 hectar o dir cyflogaeth ar gyfer defnyddiau busnes

Mae'r cynllun yn canolbwyntio twf o amgylch:

- Cyfleoedd trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig rhwydwaith y Metro
- Canolfannau trefi presennol
- Lleoliadau cynaliadwy gyda mynediad at swyddi a gwasanaethau

Mae'r Datganiadau o Gytundeb Eang yn dod i'r casgliad bod strategaeth Caerffili yn gydnaws yn gyffredinol â chynlluniau cyfagos oherwydd bod cynghorau'n rhannu amcanion tebyg, gan gynnwys:

- Cefnogi twf economaidd cynaliadwy
- Cyflenwi tai
- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus
- Diogelu'r amgylchedd
- Annog adfywio tir a ddatblygwyd yn flaenorol
- Lleihau dibyniaeth ar deithio mewn ceir preifat

Mae'r ddogfen hefyd yn cydnabod bod pobl yn symud ac yn cymudo'n rheolaidd ar draws ffiniau awdurdodau lleol, gan wneud cydweithio rhanbarthol yn hanfodol.

Cytunwyd ar y rhan fwyaf o faterion trawsffiniol, ond mae angen gwaith pellach gyda Rhondda Cynon Taf ar fodelu trafnidiaeth a deall effeithiau datblygiadau arfaethedig ar y rhwydwaith ffyrdd a rennir. Cesglir tystiolaeth ychwanegol cyn dod i gytundeb llawn.

Daw'r ddogfen i'r casgliad bod 2CDLIA Caerffili wedi'i ddatblygu drwy gydweithio helaeth ag awdurdodau cyfagos a phartneriaid rhanbarthol. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod cynigion Caerffili ar gyfer tai, swyddi, trafnidiaeth a seilwaith yn cyd-fynd ag amcanion rhanbarthol ehangach ac yn gydnaws yn gyffredinol â chynlluniau datblygu cyfagos. Mae'r Cyngor o'r farn bod y dull cydweithredol hwn yn helpu i ddangos bod y 2CDLIA yn gadarn ac yn cefnogi twf cynaliadwy ar draws De-ddwyrain Cymru.